Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad rhanbarthol ar raglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yn Ne Ddwyrain Cymru

## Dyddiad yr ymweliad monitro: Hydref 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad penodol.**

## Ynglŷn â rhanbarth De Ddwyrain Cymru

Ymwelodd arolygwyr â'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid (is-gontractwyr) i adolygu cyflwyno rhaglen Twf Swyddi Cymru+ ym mlwyddyn gyntaf contract Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad rhanbarthol hwn yn rhoi crynodeb o adborth o'r ymweliad hwn.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- arsylwi cyfranogwyr mewn sesiynau
- siarad â chyfranogwyr ac adolygu eu cynlluniau dysgu unigol a dogfennau allweddol
- arsylwi tiwtoriaid a chyfarfod ag arweinwyr ar draws y sefydliadau
- cyfarfod â staff allweddol o Cymru'n Gweithio i adolygu'r broses atgyfeirio
- adolygu ansawdd a phriodoldeb yr adeiladau a'r adnoddau ar gyfer y rhaglen

Yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru, mae dau ddarparwr arweiniol a 10 partner sy'n is-gontractwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno rhaglenni ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Ymwelom â chyfranogwyr ar y rhaglen mewn lleoliadau yng Nghasnewydd, Cwmbrân a Chaerffili.

Dyma'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid sy'n is-gontractwyr:

Associated Community Training Ltd – darparwr arweiniol

- Aspiration Training
- Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CCYP)
- Coleg Paratoi Ysgogiadol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)
- Academi Ieuenctid Casnewydd
- People Plus
- Hyfforddiant Tudful

ITEC Training Solutions Ltd – darparwr arweiniol

- Coleg QS

Adeg ein hymweliad, roedd mwyafrif y cyfranogwyr wedi cofrestru ar elfen ymgysylltu'r rhaglen, gydag ychydig iawn o gyfranogwyr ar yr elfennau datblygu neu gyflogaeth. Roedd tua 541 o gyfranogwyr ar y rhaglen adeg ein hymweliad.

## Prif ganfyddiadau

Yn ystod y cyfnod yn arwain at ddechrau'r contract, gwnaeth y ddau ddarparwr arweiniol waith datblygu sylweddol ar draws ystod eang o feysydd. Roedd hyn yn cynnwys contractio â phartneriaid i gyflwyno'r rhaglen mewn lleoliadau daearyddol allweddol ac uwchsgilio staff hyfforddiant a chymorth i gyflwyno'r rhaglen newydd. Mae darparwyr wedi recriwtio staff ychwanegol hefyd, gan gynnwys rolau fel swyddogion ymgysylltu ag ieuenctid sy'n gweithio mewn cymunedau lleol i ymgysylltu â'r gymuned a darpar gyfranogwyr.

O ganlyniad i'r cynllunio ystyriol hwn, datblygodd staff ddealltwriaeth ddyfnach o strategaethau i ymgysylltu â chyfranogwyr a'u datblygu, ac yn arbennig, sut i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion penodol. Mae cynllunio a chyflwyno'r rhaglen wedi gwella o raglenni ymgysylltu a chyflogadwyedd blaenorol tebyg, gyda gwelliant amlwg yn ansawdd yr addysgu a'r cymorth a roddir gan diwtoriaid. Mae'r darparwyr arweiniol wedi datblygu gweithio'n gadarn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan rannu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad cyfranogwyr a chyflwyno'r contract.

Caiff cyfranogwyr eu cynorthwyo'n dda o ddechrau eu rhaglenni mewn amgylchedd cefnogol a strwythuredig. Mae darparwyr wedi sefydlu clybiau brecwast yn gyflym ar gyfer cyfranogwyr. Yn ogystal â galluogi cyfranogwyr i gael prydau bwyd a diodydd, mae hyn yn helpu meithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth cyfoedion mewn ymagwedd gydlynol. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn helpu cefnogi gwelliant mewn hunan-barch, hyder a medrau bywyd cyfranogwyr.

Mae gan lawer o gyfranogwyr sy'n dechrau ar y rhaglen hon anghenion cymorth gwahanol i'r hyn a welwyd ymhlith carfan y rhaglen hyfforddeiaeth ac ymgysylltu flaenorol. Mae gan y cyfranogwyr presennol gryn dipyn yn fwy o anghenion cymorth lles ac iechyd meddwl na dysgwyr hyfforddeiaethau neu ymgysylltu blaenorol. Mae llawer o gyfranogwyr yn dechrau dilyn cyrsiau â mwy o gymwysterau na'r rhai a welwyd ar raglenni blaenorol. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch ble mae pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, sydd efallai'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, yn cael cymorth.

Mae gwybodaeth atgyfeirio yn fanwl ac mae cynlluniau dysgu unigol yn cynnwys ystod o wybodaeth fuddiol sydd wedi'i chysylltu'n agos ag anghenion a dyheadau cyfranogwyr. Un nodwedd hynod ddiddorol yw'r ffaith fod sawl partner cyflwyno yn ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i amgylchedd y ganolfan hyfforddi arferol. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi'r cyfle i gyfranogwyr brofi ystod eang o weithgareddau, yn aml am y tro cyntaf, er enghraifft gweithgareddau yng nghefn gwlad a gwaith elusennol.

Mae sicrhau ystod eang o leoliadau gwaith addas yn parhau i fod yn her i ddarparwyr. Nid yw'r elfen hon o'r rhaglen wedi'i datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r cyfleoedd lleoliadau gwaith ledled y rhanbarth yn rhy amrywiol. Mewn un ardal awdurdod lleol, mae cyflogwr lletygarwch mawr yn cynnig lleoliadau gwaith mewn ystod o ardaloedd, ond ceir llai o gyfleoedd tebyg mewn ardaloedd eraill yn y rhanbarth. Mae lleoliadau gwaith yn y sector adeiladu yn broblemus iawn. Yn y sector hwn, dywedir yn aml bod angen i gyfranogwyr fod yn 18 mlwydd oed at

ddibenion yswiriant. Fodd bynnag, efallai bydd pobl ifanc wedi ennill cymwysterau sy'n benodol i sector erbyn iddynt fod yn 17 oed, ond ni allant gael profiadau ymarferol mewn adeiladu.

Ledled y rhanbarth, dywed darparwyr fod niferoedd cyfranogwyr islaw'r rhai a oedd yn ddisgwyliedig cyn dechrau'r contract. Mae hunanatgyfeirio wedi dechrau gwella niferoedd y cyfranogwyr, er nad dyma'r prif fecanwaith ar gyfer atgyfeiriadau. Ar ein hymweliad, roedd meintiau grwpiau mewn sesiynau yn fach, ar y cyfan. O ganlyniad, mae'n codi pryder ynghylch a yw'r bobl ifanc anoddaf i'w cyrraedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn cael eu targedu'n ddigon effeithiol i ymgysylltu â'r rhaglen. Nid yw rhannu data a gwybodaeth yn ymwneud ag atgyfeiriadau cyfranogwyr wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol, ac mae'n amrywio ar draws asiantaethau atgyfeirio. Pan mae'r broses atgyfeirio yn gweithio'n dda, mae'n aml oherwydd perthnasoedd gweithio effeithiol rhwng unigolion. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r agwedd hon i sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd wrth rannu data a gwybodaeth. Er enghraifft, gellid mynd i'r afael â hyn yn gyflym trwy sicrhau bod pob partner yn glir ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael, beth y gellir ei rannu a'r protocolau a'r fforwm ar gyfer rhannu.

## Argymhellion

Dylai'r darparwyr arweiniol, Cymru'n Gweithio a phartneriaid yn y rhanbarth:

A1 Datblygu protocolau a gweithdrefnau rhannu gwybodaeth ar draws darparwyr ac asiantau atgyfeirio, gan gynnwys cydlynwyr ymgysylltu a chynnydd, i alluogi targedu a monitro atgyfeiriadau ar y rhaglen yn well, yn enwedig i gefnogi'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu

A2 Datblygu nifer ac ystod y lleoliadau gwaith sydd ar gael i gyfranogwyr ar y rhaglen

## Atodiad: Ynglŷn â Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+

Mae Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen cymorth hyfforddiant, datblygiad a chyflogadwyedd unigoledig ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 18 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru yr aseswyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant amser llawn (NACH). Ei nod yw rhoi i bobl ifanc y medrau, y cymwysterau a'r profiad i gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio o gwmpas y person ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc NACH a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial.

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y cynnig **Gwarant i Bobl Ifanc** (cynnig gwarantedig o gymorth ar gyfer pobl ifanc o dan 25 mlwydd oed yng Nghymru i ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig).

O fis Ebrill 2022 - Mawrth 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen hon ar draws pedair ardal ranbarthol: gogledd Cymru, de orllewin a chanolbarth Cymru, canol de Cymru, a de ddwyrain Cymru. Mae pob rhanbarth yn cynnwys darparwyr contractau arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid sy'n is-gontractwyr i ddarparu rhaglen ddysgu a/neu ddatblygu integredig.

Mae ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio yn cyfeirio pobl ifanc at ddarparwyr y rhaglen ac yn darparu asesiad cychwynnol o'r cymorth sydd ei angen, gan nodi elfennau priodol y rhaglen:

Ymgysylltu – Mae'r elfen hon yn helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr gyrfa yr hoffent ei ddilyn.

Datblygu – Mae'r elfen hon yn darparu cymorth neu raglenni sy'n cynnig cymwysterau i helpu'r person ifanc i symud ymlaen i astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Cyflogaeth – Mae'r elfen hon yn darparu cyfleoedd gwaith â chymhorthdal ar gyfer pobl ifanc.

Bydd gan bobl ifanc ar y rhaglen, y cyfeirir atynt fel cyfranogwyr, gynllun dysgu unigol (CDU). Caiff y cynllun ei ddatblygu a'i gyflwyno gan ddarparwyr a fydd yn eu cynorthwyo i ennill y medrau, y cymwysterau a'r profiad i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth) neu brentisiaeth.

Disgwylir i'r darparwyr arweiniol ddyfeisio a chyflwyno cymorth unigoledig hyblyg a chreadigol sy'n cynnwys ystod eang o weithgarwch – y tu hwnt i ddatblygu hyfforddiant a medrau. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, ddefnyddio lleoliadau gwaith cyflogwyr, treialon gwaith, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol, cyfleoedd dysgu yn y ganolfan a chyflogaeth â chymhorthdal cyflog.

Gellir cael mwy o wybodaeth am fanyleb y rhaglen ar wefan Llywodraeth Cymru:

Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU